Animal & Plant Health Agency

Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion

Animal and Plant Health Agency
Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion
National Bee Unit
National Agri-Food Innovation Campus
Sand Hutton, York
YO41 1LZ

T +44 0300 3030094

www.nationalbeeunit.com

Y diweddaraf ar gacwn Asia a welwyd yn Woolacombe a Gwybodaeth am y Dadansoddiad o Nyth yn Tetbury

Er mwyn gweld rhai rhannau o'r cynnwys efallai y bydd angen i chi ddiffodd eich dyfais atal ffenestri naid dros dro.

Delwedd 1 o gacynen Asia a welwyd yn ysglyfaethu drwy ddisgyn o flaen cychod gwenyn yn Woolacombe

Ar ôl achosion a amheuwyd ddydd Sul, 24 Medi, anfonwyd dau ffotograff o gacynen Asia i'r UWG gan wenynwr yn Woolacombe, Gogledd Dyfnaint. Drannoeth, 25 Medi, dechreuodd y wyliadwriaeth ragarweiniol yn y wenynfa a rhoddwyd Cynllun Wrth Gefn yr UWG ar waith. Aeth yr Arolygydd Gwenyn lleol ati i fonitro'r wenynfa a bu'n anodd cadw llygad ar y dechrau oherwydd lleoliad y nythfeydd yn y wenynfa. Fodd bynnag, y bore hwnnw, llwyddodd yr Arolygydd i ddal cacynen ac anfon y sampl i'r UWG yn Sand Hutton i'w hadnabod yn ffurfiol. Yn ddiweddarach yn y prynhawn, dychwelodd yr Arolygydd i safle'r wenynfa a gwelwyd saith cacynen arall yn ysglyfaethu drwy ddisgyn o flaen cychod, ond ni ellid canfod llinell weleiad, er mwyn cadarnhau llwybr hedfan yn ôl i'r nyth.

Ar 26 Medi, defnyddiwyd arolygwyr o Ranbarth De-orllewin Lloegr i gynnal chwiliadau dwysach am gacwn Asia yn ysglyfaethu yn yr ardal. Nid oedd yr amodau tywydd gwlyb, niwlog a thywyll yn ddelfrydol, ond parhaodd yr Arolygwyr i arolygu'r wenynfa lle y gwelwyd yr achos gwreiddiol a chadarnhawyd dwy linell weleiad. Roedd yr Arolygwyr yn gallu nodi ail wenynfa tua 1km o'r achos gwreiddiol, lle y gwelwyd un gacynen yn ysgyflaethu ar wenyn yn dychwelyd ar ôl chwilio am fwyd. Cymerwyd sampl o gacynen er mwyn canfod a oedd y cacwn a oedd yn ymweld â'r ail wenynfa yn dod o'r un nyth ac felly gadarnhau p'un a oedd sawl nyth yn yr ardal.

Gwelwyd cacwn mewn gwenynfa ar safle arall hefyd ac fe'u gwelwyd yn hedfan mewn llinell weleiad debyg. Roedd y llinellau gweleiad o'r wenynfa lle y gwelwyd yr achos gwreiddiol a'r ail wenynfa gyda'i gilydd yn ddigon i lunio triongliant cychwynnol ac ymchwilio iddo. Dechreuodd yr Arolygwyr archwilio llwybrau troed cyhoeddus a'r ardal o amgylch y man lle y cyfarfu'r ddau bwynt yn driongl. Gwelwyd cryn dipyn o weithgarwch cacwn Asia ar safle adeiladu gerllaw ac ar 27 Medi darganfuwyd nyth cacwn Asia.

Dinistriwyd y nyth y noson ddilynol ac aethpwyd â hi i labordy Fera (Sand Hutton, Caerefrog) ddydd Gwener, 29 Medi. Cynhaliwyd rhagor o waith gwyliadwriaeth o fewn parth o 10km i safle'r nyth ac ni chanfuwyd rhagor o weithgarwch cacwn Asia. Ar ôl i'r nyth gael ei dadansoddi dangoswyd nad oedd yr un gacynen lawndwf yn wrywaidd ac mae hyn yn awgrymu bod y nyth wedi cael ei darganfod a'i symud cyn i famwenyn gael eu cynhyrchu, a fydd wedi gaeafu ac yna gynhyrchu nythod yn 2018.

APHA is an Executive Agency of the Department for Environment, Food and Rural Affairs and also works on behalf of the Scottish Government, Welsh Government and Food Standards Agency to safeguard animal and plant health for the benefit of people, the environment and the economy

Mae APHA yn un o Asiantaethau Gweithredol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac mae hefyd yn gweithio ar ran Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a'r Asiantaeth Safonau Bwyd i ddiogelu iechyd anifeiliaid a phlanhigion er budd pobl, yr amgylchedd a'r economi

Os bydd gennych ddiddordeb mewn gwybod rhagor o fanylion am yr achos yn Tetbury yn 2016, gan gynnwys dadansoddiad genetig o darddiad y cacwn, mae ar gael yn y cyhoeddiad PLoS One: Budge GE, Hodgetts J, Jones EP, Ostoja Starzewski JC, Hall J, Tomkies V, et al. (2017) The invasion, provenance and diversity of *Vespa velutina Lepeletier* (Hymenoptera: Vespidae) in Great Britain. PLoS ONE 12(9): e0185172. https://doi.org/10.1371/journal.pone.0185172 (pdf).